

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

Chwefror 2021

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 mewn perthynas â'r meysydd polisi yn ein cylch gwaith.
2. Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 9 Chwefror 2021.
3. Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion.

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

4. Ar 21 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion cyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Cyhoeddwyd y setliad Llywodraeth Leol dros dro ar 22 Rhagfyr 2020.
5. Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yw Tai a Llywodraeth Leol. Yr elfennau penodol o fewn y MEG hwn sy'n berthnasol i'n cylch gwaith yw Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol. Mae hefyd elfennau sy'n berthnasol i ni yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (y rhai sy'n ymwneud â chydaddoldebau).

Ymagwedd y Pwyllgor tuag at graffu

6. Ar 14 Ionawr 2021, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC") mewn perthynas â'r setliad Llywodraeth Leol dros dro.



7. Ar 21 Ionawr 2021, clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Cynhaliwyd sesiwn ar wahân hefyd gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn edrych ar agweddau cydraddoldeb ar y gyllideb.

1. Llywodraeth leol

Ymateb COVID-19 a chymorth ariannol

8. Mae llywodraeth leol wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig, gan ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau allweddol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r gost ariannol o ymateb i'r argyfwng wedi bod yn sylweddol. Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, nododd CLILC fod "ymateb y Cynghorau wedi ei gynorthwyo'n sylweddol gan gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru", y dywed ei fod wedi dod â "sefydlogrwydd dros dro i ganiatáu cynghorau i ymateb i'r pandemig".¹

9. Mae awdurdodau lleol wedi gweld pwysau gwariant ychwanegol, yn ogystal â wynebu colled incwm sylweddol. Mae cyfraddau casglu gostyngol o drethi lleol ac incwm cyfyngedig o werthiannau a thaliadau wedi ychwanegu at y pwysau ariannol presennol ar lywodraeth leol.

10. Dim ond yn rhannol y mae'r gyllideb ddrafft yn ymdrin ag effaith COVID-19, gan fod cyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer yr ymateb i'r argyfwng yn cael ei darparu drwy gyllid brys. Fel y nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog") yn ei datganiad ar y setliad dros dro:

"Mae ystod eang o wasanaethau wrth gwrs wedi'u heffeithio'n sylweddol gan y pandemig. Fel yr oedd datganiad y Gweinidog Cyllid ar y gyllideb yn ei egluro, rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddarparu cyllid i gefnogi eich ymateb chi ac eraill i'r pandemig. Caiff hyn ei ystyried ar wahân ac nid yw'n rhan o'r Setliad hwn."²

11. Mae'r gyllideb yn ceisio lliniaru rhai o effeithiau anuniongyrchol y pandemig, megis darparu refeniw yn y setliad i ddisodli'r hyn a gollir drwy incwm ardrethi

¹Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Ionawr 2021, papur 1

² Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2021-22, 22 Rhagfyr 2020

annomestig. Byddai ardrethi annomestig fel arfer yn darparu tua £1 biliwn i lywodraeth leol tuag at wasanaethau lleol.

12. Eglurodd CLILC i ni sut roedd ymateb i'r pandemig hefyd wedi effeithio ar gynlluniau Ariannol Tymor Canolig awdurdodau lleol y cytunwyd arnynt fel rhan o brosesau cyllideb blaenorol:

“It has inevitably affected our ability to plan, to make savings, to transform, both in this year and in the year to come. Lots of savings measures have become more difficult and have been delayed because of the impact of COVID; others have been just made unviable.”³

Y setliad llywodraeth leol dros dro

13. Mae setliad llywodraeth leol dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn darparu cynnydd cyffredinol o £176 miliwn (cyn addasiadau). Mae hyn gyfwerth â chynnydd o 3.8 y cant ar sail debyg am debyg. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai nod y setliad yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mewn cymdeithas sydd wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y pandemig. Dywedodd fod darpariaethau wedi'u cynnwys er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno ceisiadau ychwanegol am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, digartrefedd, prydau ysgol am ddim a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.⁴ Wrth ymateb i'r setliad dros dro, nododd y Cyngorydd Andrew Morgan, arweinydd CLILC mewn datganiad i'r wasg:

“Dyma setliad i'w groesawu gan ei fod yn darparu buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol ac yn rhoi peth sicrwydd i gynghorau mewn cyfnod ansicr.”⁵

14. Er i gynrychiolwyr CLILC groesawu'r setliad ar y cyfan, gwnaethant sylwadau ynghylch yr ansicrwydd a grëwyd wrth gyhoeddi setliadau blwyddyn sengl:

“...it's not a multi-year settlement, so obviously we don't have that certainty for future years.”⁶

³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 40

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 9

⁵ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Ionawr 2021, papur 1](#)

⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 6

15. Aeth cynrychiolwyr CLILC ymlaen i egluro, er iddynt groesawu'r setliad, nad oedd y cyllid yn ddigonol i dalu holl gostau awdurdodau lleol:

"...we're in a position where it doesn't mean that there won't be any savings, and it doesn't mean that there won't be any increase in council tax. It's not enough to pay for what we need now, and that's the challenge we have in local government."⁷

16. Nododd y Gweinidog yn ei datganiad ar y setliad nad oes cyllid gwaelodol wedi'i ddarparu:

"Nid yw'n fwriad gennyf ddarparu ar gyfer cyllid gwaelodol eleni o ystyried y setliad uwch ar gyfer 2020-21 a'r dyraniadau arfaethedig yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw ar gyfer 2021-22. Yn unol â hynny, rwyf wedi dyrannu'r holl arian sydd ar gael ymlaen llaw."⁸

17. Er bod pob awdurdod lleol wedi derbyn cynnydd mewn cyllid, cafodd dau awdurdod yn benodol - Ceredigion (+2 y cant) a Wrecsam (+2.3 y cant) godiadau is o gymharu â'r cynnydd cyllid cyffredinol o 3.8 y cant. Cred CLILC fod angen cyllid gwaelodol er budd yr awdurdodau hynny y mae eu codiadau cyllid yn is nag eraill a dywedodd wrthym y byddai'n:

"...continue to campaign and to lobby for a separately funded floor within the settlement, to try and provide certainty to those councils that are at one end of the spectrum."⁹

18. Ychwanegodd CLILC:

"...the funding floor would help to create what may look like a fairer settlement for all."¹⁰

19. Eglurodd y Gweinidog fod cyllid gwaelodol wedi'i ddarparu mewn setliadau blaenorol i atal rhai awdurdodau rhag wynebu effeithiau negyddol ar eu cyllidebau a oedd yn mynd y tu hwnt i drothwy penodol. Cydnabu'r Gweinidog yr

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 77

⁸ Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, [Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2021-22, 22 Rhagfyr 2020](#)

⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 22

¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 24

alwad gan CLILC, fodd bynnag, ailadroddodd nad oedd cyllid gwaelodol wedi'i ddarparu gan fod y setliad yn darparu cynnydd mewn cyllid ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol.¹¹ At hynny, dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael i ddarparu cyllid gwaelodol, ac felly byddai gwneud hynny yn arwain at ailddosbarthu dyraniadau presennol o fewn y setliad, a fyddai'n anochel yn effeithio ar yr awdurdodau eraill.¹² Eglurodd rai o'r anawsterau gyda chyllid gwaelodol, yn enwedig ei natur artiffisial, a'i bod yn anodd 'dianc' ohono a gwneud cyllid yn deg yn y blynyddoedd i ddod.¹³ Pwysleisiodd y Gweinidog fod y dyraniadau i bob awdurdod yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla ariannu y cytunwyd arni gan yr Is-grŵp Dosbarthu, y mae pob awdurdod lleol a CLILC yn aelodau ohono.¹⁴ Mae'r fformiwla ariannu wedi bod yn fater yr ydym wedi'i archwilio wrth graffu ar gyllidebau drafft yn y gorffennol.

20. Rydym yn cydnabod bod cyllid gwaelodol wedi bod yn angenrheidiol mewn blynyddoedd blaenorol lle byddai setliadau llai hael wedi arwain at ostyngiadau sylweddol mewn cyllid i rai awdurdodau lleol, pe na bai cyllid gwaelodol wedi bod ar waith. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai awdurdodau lleol yn derbyn codiadau is na'r cyfartaledd yn 2021-22, a bod gwahaniaeth rhwng yr awdurdodau sy'n derbyn y cynnydd mwyaf, a'r rhai sy'n derbyn y codiadau isaf yn y gyllideb. Fodd bynnag, bydd pob awdurdod yn derbyn cynnydd yn 2021-22. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol i drafod y gefnogaeth barhaus y bydd ei hangen arnynt yn ystod y flwyddyn i ymateb i heriau'r pandemig.

Ardrethi Annomestig

21. Mae ardrethi annomestig yn rhan sylweddol o'r cyllid refeniw ar gyfer llywodraeth leol. Gyda busnesau yn ei chael hi'n anodd aros ar agor a thalu eu ffordd yn ystod yr argyfwng, mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn derbyniadau treth yn y dyfodol. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn nodi yn ei **bapur briffio ar Ragolwg 2020 o Gyllideb Cymru:**

¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 31

¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 40

¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 31

¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 44

“...if councils are less successful at collecting non-domestic rates (NDR) from businesses this year, this will impact the amount available for redistribution as part of the local government settlement in 2021-22. The Welsh Government is providing additional grant funding to local authorities to cover any reduction in tax revenue directly resulting from the non-domestic rates relief and grants made to businesses. But under the current setup, local authorities will bear the risk of any reduction in collection rates – and this will impact the amount they have available to spend in future years.”

22. Ar 15 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y caiff y lluosydd ardrethi annomestig ei rewi ar gyfer 2021-22. Nodir fel a ganlyn ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru:

“Mae’r lluosydd yn rhan annatod o benderfynu ar filiau talwyr ardrethi. Bydd y penderfyniad hwn yn sicrhau, cyn cymhwyso unrhyw ryddhad, nad oes unrhyw gynnydd yn swm yr ardrethi y bydd busnesau'n eu talu y flwyddyn nesaf. Bydd capio lluosydd ardrethi annomestig i’r CPI, yn hytrach na’r RPI, rhwng 2018-19 a 2020-21, ochr yn ochr â rhewi’r lluosydd yn 2021-22 yn arwain at drethdalwyr yng Nghymru yn arbed dros £90 miliwn ar eu biliau ardrethi ers 2018-19.”¹⁵

23. Cydnabu CLILC y posibilrwydd y gallai rhewi’r lluosydd ardrethi annomestig gael effaith ar setliadau yn y dyfodol.¹⁶ Fodd bynnag, nid oedd y Gweinidog Cyllid yn credu bod hyn yn wir gan fod cyllid wedi’i ddarparu i dalu costau rhewi’r ardrethi annomestig ac y byddai hyn yn cael ei seilio ar gyfrifiadau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.¹⁷

24. Eglurodd y Gweinidog Cyllid fod y setliad yn cynnwys £35 miliwn ychwanegol i dalu am yr amcangyfrif o golled incwm o ganlyniad i’r gostyngiad o gasglu ardrethi annomestig. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod £35 miliwn yn amcangyfrif a rhoddodd sicrwydd inni y byddai’n parhau i fonitro effaith cyfraddau casglu is o ran ardrethi annomestig ar awdurdodau lleol.

¹⁵ [Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, Rhewi’r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2021-22](#), 15 Rhagfyr 2020

¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 118

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 70

25. Rydym yn croesawu'r dyraniad o £35 miliwn a'r ymrwymiad i barhau i fonitro effaith cyfraddau casglu is. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr effaith hon yn cael ei hasesu'n llawn i ddeall y costau gwirioneddol ac a fydd angen adnoddau pellach i dalu am golli incwm ychwanegol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effaith casglu llai o Ardrethi Annomestig er mwyn deall y costau gwirioneddol yn llawn a dylem sicrhau bod unrhyw adnoddau pellach sydd eu hangen i dalu am golled incwm ychwanegol yn cael eu darparu i awdurdodau lleol.

Y dreth gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

26. Mae'r gostyngiad yn y gyfradd leol ar gyfer casglu treth wedi bod yn sylweddol mewn rhai rhannau o Gymru o ganlyniad i'r pandemig. Yn flaenorol, mae CLILC wedi darparu tystiolaeth sy'n nodi y bu gostyngiad o 1.4 y cant ar gyfartaledd mewn cyfraddau casglu ledled Cymru o'i gymharu â'r un amser y llynedd. Nododd CLILC yn ei thystiolaeth ar effaith COVID-19 ar lywodraeth leol fod yr amrywiad yn amrywio o ostyngiad o 0.8 y cant ar un pen o'r amrediad i 2.6 y cant yn y pen arall.¹⁸

27. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyllid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar £244 miliwn ar gyfer 2021-22. Nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers i'r cynllun ddisodli'r Budd-dal Treth Gyngor a gafodd ei ddiddymu gan Lywodraeth y DU yn 2013. Roedd **Adroddiad Blynyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2019-20** yn nodi fel a ganlyn:

“Cyfanswm gwerth y gostyngiadau a roddwyd drwy'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru yn 2019-20 oedd tua £271.9m, o'i gymharu â £260.9m yn 2018-19, sef cynnydd o tua £11m (4.0%).”

28. Mae'r pandemig wedi arwain at gynnydd yn yr hawliadau am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wrth i bobl weld eu hincwm yn gostwng yn sydyn neu'n dod i ben yn gyfan gwbl. Nododd CLILC, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i ni ym mis Gorffennaf:

“Local authority Treasurers have indicated an out-turn figure for additional CTRS pressure of £2.85m for the first quarter and the caseload will only increase as individuals come off the furlough scheme and as a result of anticipated job losses.”

¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Gorffennaf 2020, papur 1

29. Cydnabu cynrychiolwyr CLILC y cynnydd yn y galw am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac roeddent yn gobeithio y byddai cyllid yn parhau i alluogi cynllun rhyddhad 100 y cant i barhau yng Nghymru:

"Welsh Government are working with us to fund that and we'd hope that that arrangement continues, really, because obviously, CTRS is affected by the horrible things that this pandemic has caused, like people's incomes and jobs being affected, so we'd hope—we're in a position in Wales where we have got 100 per cent relief scheme, [] we want to continue that and we want to continue to work with Welsh Government to make sure that that's fundable, moving forwards, even though it's more expensive than it was because of the pandemic. So, that's something that we'd hope continues."¹⁹

30. Yn ddiweddar, dywedodd y Gweinidog Cyllid wrth y Pwyllgor Cyllid ei bod yn rhagweld gwneud dyraniadau ychwanegol cyn y gyllideb derfynol mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac â llywodraeth leol mewn perthynas â chyfraddau casglu'r dreth gyngor.

"I'll be expecting to make further allocations in respect of the council tax reduction scheme and the impact that has been felt by local authorities in that respect as a result of the pandemic, and, in terms of local government, collection of council tax as well, because that's clearly been impacted by the pandemic."²⁰

31. Ailadroddodd y Gweinidog Cyllid hyn i'n Pwyllgor, gan gydnabod y galw cynyddol am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oherwydd y pandemig a'r effaith sylweddol yr oedd hyn yn ei chael. Cydnabu fod y £244 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y Cynllun yn aros ar yr un lefel â phan gafodd ei gyflwyno gyntaf yn 2013, ond ychwanegodd fod y galw yn is nag yn 2013.²¹

32. Mae cynghorau wedi gweithio drwy gydol y pandemig i ddarparu gwasanaethau lleol ac maent wedi gweld cynnydd yn y galw. Rhaid i bob gwasanaeth gael ei ariannu ac mae'r dreth gyngor yn elfen allweddol o gyllid i awdurdodau lleol, yn enwedig nawr bod ffynonellau incwm eraill fel refeniw a gasglwyd o ddigwyddiadau hamdden ac adloniant wedi diflannu. Fodd bynnag,

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, paragraff 132

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 14

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraffau 74-77

rydym hefyd yn gwybod bod llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd yn ariannol o ganlyniad i'r pandemig, ac felly nid yw pwysigrwydd y Cynllun i gynorthwyo pobl ar incwm is erioed wedi bod yn bwysicach. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael y rhyddhad yn gallu manteisio arno a bod awdurdodau lleol yn cael iawndal am effaith y galw cynyddol am fudd-dal ar eu casgliad refeniw.

33. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Cyllid i adolygu'r dyraniad ar gyfer y Cynllun cyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru a chredwn y dylai hwn fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol. Mae ein gwaith ar effaith y pandemig wedi dangos mai'r rhai ar incwm is sy'n dioddef fwyaf, ac felly rhaid i gamau pellach i liniaru'r anghydraddoldebau hyn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

34. Fel rhan o'n gwaith yn edrych ar fudd-daliadau yng Nghymru, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella'r nifer sy'n manteisio ar yr holl fudd-daliadau yng Nghymru, yn ddatganoledig a heb fod yn ddatganoledig.²² Derbyniwyd hyn mewn egwyddor, ers dechrau'r pandemig, mae mwy o bobl wedi bod yn defnyddio'r system fudd-daliadau. O ganlyniad i hyn, credwn na fu gweithredu'r argymhelliad hwn yn llawn erioed mor bwysig.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid yn adolygu'r dyraniad yn y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac yn cynyddu'r dyraniad hwn yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i asesu faint o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i dalu am y cynnydd yn y galw am y cynllun.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor er mwyn sicrhau mynediad i bawb sy'n gymwys. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad o'n hadroddiad ynghylch budd-daliadau yng Nghymru, sef bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r nifer sy'n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, yn rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad inni ar y cynnydd o ran gwella'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau.

²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, [Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w cyflawni'n well, Hydref 2019](#)

2. Tai

Digartrefedd a chymorth tai

35. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei **strategaeth ddigartrefedd** ym mis Hydref 2019 gydag addewid i wneud digartrefedd yn “brin, yn fyrhoedlog ac nad yw’n digwydd eto”. Ym mis Mawrth 2020, canolbwyntiodd cam cychwynol yr ymateb digartrefedd i COVID-19 ar sicrhau bod gan bawb lety lle gallent hunan-ynysu pe bai angen a lle gallent ddilyn cyngor iechyd cyhoeddus ar hylendid sylfaenol, golchi dwylo a phellter cymdeithasol. Darparwyd £50 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi’r gwaith hwn yn 2020-21. Mae Cyfnod 2 yn canolbwyntio ar wasanaethau a llety parhaol, er bod Cyfnod 1 yn parhau a bydd angen llety dros dro o hyd.

36. Mae gan awdurdodau lleol y cyfrifoldeb statudol i fynd i’r afael â digartrefedd, gan weithio mewn partneriaeth â’r trydydd sector yn aml. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae CLLC yn nodi ei phryderon ynghylch y pwysau cyfredol ar wasanaethau:

“Mae pwysau ariannol tai a digartrefedd yn bryder sylweddol. Hyd yma mae’r cyllid refeniw sydd wedi bod ar gael ar gyfer COVID-19 wedi helpu i fynd i’r afael a chysgu ar y stryd. Bu cyllid gan y Grant Cymorth Tai a’r Grant Cysgu ar y Stryd hefyd o gymorth ond bydd problemau a heriau newydd yn codi oherwydd y dyletswyddau cyfreithiol newydd o dan Adran 75(3) Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae’r maes hwn yn debygol o weld galw yn cynyddu yn y tymor canolig a’r hir dymor oherwydd y cynnydd mewn lefelau digartrefedd.”²³

37. Yn y gyllideb ddrafft, mae dyraniad y Grant Atal Digartrefedd wedi cynyddu £4 miliwn (mewn termau arian parod) i £21.9 miliwn yn 2021-22. Daw hyn o gronfa wrth gefn COVID-19. Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi fel a ganlyn:

“Bydd yr arian ychwanegol yn ein galluogi i gynnal y ddarpariaeth frys o lety a chymorth ar ddechrau’r flwyddyn ariannol nesaf yn ôl y gofyn, a sicrhau parhad y ddarpariaeth.”²⁴

38. Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi byw’n annibynnol. Mae’r Grant yn mynd i’r afael ag

²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Ionawr 2021, papur 1

²⁴ Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, paragraff 4.04

anghenion cymorth tai ac anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy ystod o fecanweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Mae'r Grant yn derbyn dyraniad ychwanegol o £40 miliwn yn 2021-22, gan roi cyfanswm dyraniad o £166.8 miliwn.

39. Cydnabu'r Gweinidog y cynnydd sylweddol yn y galw am dai yn ystod y pandemig, gan nodi bod pob awdurdod lleol wedi wynebu pwysau yn y maes hwn.²⁵ Ailadroddodd y byddai'r cyllid yn galluogi cynnal darpariaethau brys drwy ddechrau 2021-22 ac y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro'r dyraniad hwn yn sgil pwysau'r gaeaf a'r pandemig parhaus i asesu pa adnoddau ychwanegol sydd eu hangen. Dywedodd y Gweinidog fod y sector tai yn falch o'r cyllid y mae wedi'i gael, a'i fod yn cyd-fynd â'r dull o symud yn gyflym i ailgartrefu a'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.²⁶

40. Rydym yn cymeradwyo'r gwaith rhagorol a wnaed gan awdurdodau lleol a phartneriaid wrth ymateb i'r galw enfawr am dai yn ystod y pandemig ac rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu bod rhai pobl yn dal i gwmpo drwy'r bylchau gyda rhai pobl yn dal i gysgu ar y stryd a ddim yn manteisio ar wasanaethau. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys a rhaid cael digon o arian i alluogi hyn. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch sylwadau'r Gweinidog y bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi llety a chymorth brys yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn darparu sicrwydd tymor hwy i'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Rhaid parhau i adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd wrth ailgartrefu pobl i lety parhaol os yw digartrefedd am gael ei ddileu. Credwn felly y dylai dyrannu adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â digartrefedd fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn y gyllideb derfynol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu dyraniadau sy'n cyfrannu at y broses o fynd i'r afael â digartrefedd yn y gyllideb derfynol.

Diogelwch adeiladau

41. Yn nogfen naratif y gyllideb ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei safbwynt mewn perthynas â'r effaith ariannol ar lesddeiliaid unigol sy'n byw

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 114

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 118

mewn adeilad preswyl uchel iawn yr effeithir arnynt gan ddiffygion diogelwch tân y gofynnir iddynt, mewn rhai achosion, dalu am waith adfer:

“Ein barn bendant o hyd yw na ddylai lesddeiliaid unigol orfod talu am ddiffygion o ran ansawdd adeiladau pan fo methiant amlwg wedi bod i adeiladu yn unol â'r safonau. Byddwn yn parhau i bwysu ar ddatblygwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau moesol ac unioni'r adeiladau hyn.

Fodd bynnag, pan fo'n briodol i'r llywodraeth ddarparu cymorth i sicrhau diogelwch cartrefi pobl, rydym wedi ymrwymo i wneud hynny, ac i wneud hynny yn awr. Rydym yn cydnabod y pryderon iechyd meddwl sylweddol a'r potensial i bobl sy'n byw yn yr adeiladau hyn fod angen cymorth ariannol a chymorth ehangach ychwanegol.”²⁷

42. Yn 2021-22, dyrannwyd cyllid cyfalaf o £32 miliwn i gefnogi adeiladau 18 metr a throdd (fel yr amlinellir yn y **Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru**, a luniwyd gan y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau) gyda diffygion adeiladau a nodir mewn perthynas â diogelwch adeiladau a bydd yn helpu i gyflymu cyflymder y gwaith i fynd i'r afael â'r materion o ran tân a materion strwythurol a nodwyd.²⁸

43. Mae'r cyfanswm hwnnw'n cynnwys cyllid grant yn ogystal â chyllid benthyciad. Dywed papur Llywodraeth Cymru fod 148 o adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru - 38 yn y sector cymdeithasol a 110 yn y sector preifat. Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi bod £10.6 miliwn ar gael ar gyfer diogelwch adeiladau ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

44. Cyfaddefodd y Gweinidog nad oedd yn hyderus y byddai'r cyllid a ddyrannwyd yn ddigonol i ariannu'r gwaith adfer sydd ei angen i fynd i'r afael â'r holl ddiffygion a nodwyd, neu a fyddai'n bosibl cyflwyno cronfa o gwbl. Pwysleisiodd y Gweinidog gymhlethdodau cyfreithiol y sefyllfa, yn enwedig o ran yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei roi ar waith i Gymru heb ymyrraeth gan Lywodraeth y DU o ystyried bod llawer o agweddau heb eu datganoli. Clywsom gan y Gweinidog fod yr arian a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft hon yn gronfa gychwynnol, er ei bod yn ansicr ynghylch sut y gellid cael gafael arno.²⁹

²⁷ Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, paragraffau 6.52-6.53

²⁸ Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, paragraff 6.53

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraffau 161-164

45. Nodwn natur agored y Gweinidog wrth fynd i'r afael â chymhlethdodau'r sefyllfa a'r cyfyngiadau o ran yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Mae hwn yn fater pwysig iawn i ni ac yn un yr hoffem weld camau pellach yn cael eu cymryd ar frys. Rydym yn croesawu parodrwydd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn, ac adlewyrchir hyn yn nyraniad y gronfa yn y gyllideb ddrafft, ond nid yw'n rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef ar ei phen ei hun. Er ein bod yn croesawu'r dyraniad cyllid, mae angen rhagor o wybodaeth am sut y bydd yn cael ei ddefnyddio os yw'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt yn mynd i allu elwa. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn pan fyddwn yn cynnal gwaith craffu manwl ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio pob llwybr cyfreithiol ar frys i ddatrys cymhlethdodau gwella diogelwch adeiladau uchel iawn ac i weithio gyda Llywodraeth y DU ar sut y gellir symud y gwaith hwn yn ei flaen yn gyflym. Byddem yn gofyn am ddiweddariad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol.

Cronfa Cymorth Dewisol

46. Mae dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei gynnal ar y lefelau a ddarparwyd yn ystod Cyllideb Derfynol 2020-21. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn nodi y gwnaed dyraniadau ychwanegol i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig:

“Mewn ymateb i Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £13.9m yn ychwanegol yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2020-21 i gefnogi'r galw cynyddol ar y Gronfa, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn hawliadau.”³⁰

47. Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi rhwng canol mis Mawrth a mis Tachwedd, y gwnaed bron i 100,000 o daliadau'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gysylltiedig â COVID-19, tua thair gwaith yn fwy o gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd “cymorth pellach i'r Gronfa yn cael ei ystyried fel rhan o'r ystyriaeth o ddyraniadau i'w gwneud yn y Gyllideb Derfynol o gronfa wrth gefn Covid-19”.³¹

³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Ionawr 2021, papur 1

³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Ionawr 2021, papur 1

48. Gwnaethom graffu ar y Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod ein **hymchwiliad diweddar** i anghydraddoldeb a'r pandemig, gan groesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ac i ddarparu mwy o hyblygrwydd a disgresiwn wrth ddyfarnu taliadau. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun a gwnaethom alw am ei ailfrandio a chynnal ymgyrch hysbysebu. Derbyniwyd yr argymhelliad mewn egwyddor.

49. Nododd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol y galw ychwanegol a roddwyd ar y Gronfa Cymorth Dewisol o ganlyniad i'r pandemig a rhagwelodd y byddai'r galw hwnnw'n parhau. Pwysleisiodd fod y Gronfa yn gronfa sy'n ymateb i'r galw, sy'n cael ei monitro'n gyson ac y caiff ei gwariant a ragwelir ei adolygu. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Gweinidog Cyllid ynghylch p'un a ellid rhoi dyraniadau ychwanegol i'r Gronfa yn y gyllideb derfynol.³²

50. Mewn llythyr at y Pwyllgor yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, nododd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol:

“O ran yr ystyriaethau ar gyfer cymorth pellach, mae amrywiaeth o opsiynau y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2020 (pan fydd hyblygrwydd rheolau Covid-19 presennol yn dod i ben) yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda'r nod o liniaru effaith barhaus y pandemig presennol, tra'n mynd i'r afael ar yr un pryd ag achosion sylfaenol tloidi, gwella cadernid ariannol, a lleihau dibyniaeth ar y gronfa.”³³

51. Rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wnaed gan y Gronfa wrth ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod y pandemig, a chaiff hyn ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom dynnu sylw yn ein hadroddiad at effaith y pandemig ar bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r gronfa ymhlith y rhai sy'n gymwys i wneud cais.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell, cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar y camau y mae wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol ymhlith y rhai sy'n gymwys i wneud cais am ei chymorth.

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 187

³³ [Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 27 Ionawr 2021](#)

3. Ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn y gyllideb

Proses asesu effaith y gyllideb

52. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau cyfreithiol amrywiol i asesu effaith ei phenderfyniadau ar gydraddoldeb, plant a phobl ifanc, a chenedlaethau'r dyfodol. Bob blwyddyn, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi asesiad effaith ochr yn ochr â'i chyllideb ddrafft, ac mae wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015-16, cyfunwyd nifer o asesiadau effaith ynghyd (yr 'asesiad effaith integredig strategol').

53. Nod yr asesiad cyfredol yw asesu effaith y gyllideb gyfan ar amrywiaeth o faterion: cydraddoldebau a hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid hinsawdd, diogelu cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd, gydag anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol.

Ymchwiliad cyd-bwyllgor y Senedd

54. Cynhaliodd tri phwyllgor y Senedd (y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cyllid) **sesiwn ar y cyd** ym mis Tachwedd 2018 oherwydd pryderon parhaus ynghylch yr asesiad effaith. Daethom i'r casgliad a ganlyn:

- yn gyffredinol, mae'r dull integredig wedi gwanhau'r asesiad effaith;
- ymddengys bod yr asesiad cyfredol yn defnyddio cydraddoldeb, hawliau plant a ffactorau eraill fel ffyrdd o gyfiawnhau gwariant, yn hytrach na dangos sut y dylanwadodd y ffactorau hynny ar wneud penderfyniadau.
- "nid yw'r asesiad effaith integredig strategol cyfredol yn darparu dadansoddiad effeithiol o benderfyniadau gwario, a gellid dadlau ei fod yn methu â chyflawni ei ofynion deddfwriaethol o ganlyniad".³⁴

³⁴ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Pwyllgor Cyllid, *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol*, Mawrth 2019

Cynllun gwella'r gyllideb

55. Mae **Cynllun Gwella'r Gyllideb** Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 (a gyhoeddwyd am y tro cyntaf y llynedd) yn cynnwys cynllun pum mlynedd ar gyfer gwella asesiadau effaith. Mae'n nodi'r camau a'r amcanion a ganlyn:

- ailgynnull Grŵp Cyngorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ym mis Tachwedd 2020 i drafod esblygiad aelodaeth y grŵp ac i fwydo i'r broses ar gyfer gwella'r gyllideb o 2021;
- ymgysylltu â chomisiynwyr statudol yn 2021 i ystyried safbwyntiau ar yr asesiad effaith integredig strategol;
- penderfynu ar y gwelliannau sy'n ofynnol, a chomisiynu gwaith pellach i ailystyried rôl asesiad effaith penderfyniadau'r gyllideb ym mhroses y gyllideb ar gyfer 2023-24; a
- gweithredu asesiad effaith gwell o'r gyllideb o 2024.

Data

56. Yn ein hadroddiad ar anghydraddoldeb a'r pandemig, gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

“[g]wella'r prosesau ar gyfer casglu a chyhoeddi data ar achosion coronafeirws a chanlyniadau iechyd wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabled a statws gweithiwr allweddol. Dylai hyn gynnwys, lle bo angen, nodi dulliau casglu amgen a ffynonellau data newydd.”³⁵

57. Canfu **adroddiad economaidd-gymdeithasol gan yr Athro Emmanuel Ogbonna** Grŵp Cyngorol BAME y Prif Weinidog hefyd:

“in light of Covid-19, the lack of or poor quality of ethnicity data has resulted in poor health decisions, and BAME communities face a higher risk of catching and dying from the disease”.

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig, Awst 2020.

58. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn cydnabod problemau o ran casglu data cydraddoldeb, ac ymrwymiad i weithio gyda'r GIG, y sector gofal cymdeithasol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn arbennig, i wella hyn.

Cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd

59. Yn y **gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21**, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd yn y Cyfrif Dysgu Personol, ond ni chaiff hyn ei grybwyll yn benodol yng nghyllideb ddrafft 2021-22.

60. Mae **tystiolaeth Chwarae Teg** i'r Pwyllgor Cyllid yn dweud eu bod yn aros ar frys am ddiweddariad ar y cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol Llywodraeth Cymru, ac yn awyddus i wybod:

“▪ What tools are being used as part of the pilot? ▪ What are the timescales for the pilot? ▪ What are the aims of the pilot? ▪ How will success be measured? ▪ Will the pilot be evaluated? ▪ How has the pilot informed spending decisions to date? Has the PLA policy been adjusted/ reviewed as a result of equalities analysis? ▪ What role are strategic budgeting playing in the pilot? Who is leading the “gender budgeting” pilot?”

61. Cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid at waith ar gyllidebu ar sail rhywedd yn cael ei wneud gyda swyddogion y Llywodraeth yng Ngwlad yr Iâ:

“They're known to be, I think, a world leader, really, in terms of gender budgeting, but they will happily admit that it's taken them seven years to get to where they are now. So, I think that we are very much starting down this road, although we can learn plenty from what they're able to share with us.

The first area where we looked at this was in personal learning accounts. So, this isn't an area of direct interest necessarily to the committee, but there's so much that we can learn from that for future areas of Government spend. So, I think that, in terms of the process of developing the budget, we're starting to look at it in new ways and finding out lots along the way, which, I think, will help us in future years as well.”³⁶

³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 14

62. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip wrthym fod data cydraddoldeb, gan gynnwys data sy'n ymwneud â grwpiau penodol, wedi'u defnyddio i sicrhau'r dyraniadau cywir yn y gyllideb ddrafft. Cyfeiriodd at Lywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Ogbonna, y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyllidebu ar sail rhywedd a'r gwaith archwilio i asesu effaith ddosbarthiadol gwariant ar draws gwasanaethau cyhoeddus.³⁷

63. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar waith parhaus Llywodraeth Cymru ar gyllidebu ar sail rhywedd. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, credwn fod angen i'r gwaith hwn fagu momentwm er mwyn effeithio ar benderfyniadau cyllidebu cyn gynted â phosibl. Byddem yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar hyn mewn pryd ar gyfer cylch cyllideb 2022-23.

64. Rydym yn dal i bryderu ei bod yn anodd nodi sut y mae'r broses asesiad effaith integredig strategol wedi dylanwadu ar ddyraniadau o fewn y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn siomedig o ystyried bod hwn yn brif bryder ein hadroddiad ar y cyd yn 2018, a luniwyd gennym mewn ymateb i bryderon tymor hwy ynghylch ansawdd y gwaith asesu effaith ar y gyllideb, a chodwyd hyn eto yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2020-21. Byddem wedi disgwyl gweld cynnydd erbyn hyn wrth ddangos sut roedd yr asesiad effaith integredig strategol wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, cyn dadl y Senedd ar y gyllideb derfynol, yn darparu rhagor o wybodaeth i ddangos sut y mae ei hasesiad effaith integredig strategol wedi dylanwadu ar y dyraniadau yn y gyllideb.

Anghydraddoldebau economaidd


65. Mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm isel. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ddwywaith yn fwy tebygol o farw o'r feirws (oherwydd iechyd gwael, tai neu anallu i weithio gartref), mae eu plant yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi yn eu haddysg, a'r gweithwyr incwm isaf sydd fwyaf tebygol o fod wedi colli incwm yn ystod y cyfnod hwn.

³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraffau 204-206

Model effaith ddosbarthiadol

66. Eleni datblygodd Llywodraeth Cymru **fodel effaith ddosbarthiadol** i asesu ei chyllideb am y tro cyntaf. Mae'r model yn dadansoddi pwy sy'n elwa o wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, ac yn edrych ar effaith gwariant cyhoeddus ar gartrefi â gwahanol lefelau o incwm. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys gwariant ar iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn 2019-20 (gan y bydd gwariant yn 2020-21 yn annodweddiadol).

Ffigur un: Gwariant adnoddau yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd a gwasanaethau cyhoeddus, 2019-20



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020) **Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru**

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

67. Yn ein hadroddiad 2020 ar y pandemig, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i lynu wrth ysbryd y **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** (a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried anghenion pobl ar incwm isel wrth wneud penderfyniadau) cyn ei gychwyn yn swyddogol ym mis Mawrth 2021.

68. Dywedodd Llywodraeth Cymru mewn ymateb ei bod yn "ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi annog swyddogion i arwain drwy esiampl a

chymhwyso ethos y Ddyletswydd yn eu cyngor i Weinidogion ar benderfyniadau strategol.”³⁸

69. Roedd **tystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y gyllideb ddrafft** i'r Pwyllgor Cyllid yn nodi fel a ganlyn:

“[t]he Welsh Government should be able to demonstrate clear strategic intent and budget allocations that aim to reduce the most significant inequalities of outcome related to socio-economic disadvantage.”

70. Amlygir y Model Effaith Ddosbarthiadol (a nodir uchod) fel un o'r ffyrdd y mae'r Llywodraeth yn glynu at y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

71. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y Model Effaith Ddosbarthiadol fel model newydd pwysig i ymchwilio i bwy sy'n elwa o wariant cyhoeddus. Ychwanegodd fod canlyniadau eang yn dod i'r amlwg, ond gan ei fod yn dal i fod yn archwiliadol, nid oedd wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y gyllideb ddrafft hon ond y byddai'n offeryn pwysig i ddylanwadu ar gyllidebau'r dyfodol.³⁹

72. Rydym yn croesawu cyflwyno'r Model Effaith Ddosbarthiadol fel offeryn defnyddiol, ac er ein bod yn derbyn y gallai fod yn rhy fuan iddo ddylanwadu ar y gyllideb ddrafft hon, byddem yn disgwyl gweld enghreifftiau o sut y mae'n dylanwadu'n uniongyrchol ar gyllideb y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn cynnwys enghreifftiau i ddangos sut y mae'r model Effaith Ddosbarthiadol wedi dylanwadu ar benderfyniadau a wnaed yn y gyllideb honno.

73. Nodwn fod y dadansoddiad dosbarthiadol wedi canfod, ar y cyfan, ar draws y meysydd gwasanaeth cyhoeddus a gaiff eu cynnwys, bod gwariant yn flaengar mewn perthynas ag incwm. Fodd bynnag, nid yw'n unffurf flaengar yn ôl cwintel incwm. Gall cartrefi yn y cwintel incwm isaf elwa llai y pen na'r cwintelau ail a'r trydydd isaf. Fodd bynnag, mae'r rhai yn y ddau gwintel uchaf (pen uchaf dosbarthiad incwm y cartref) yn elwa llai na'r rhai ag incwm is. Credwn y dylai gwariant cyhoeddus fod yn gwbl flaengar ar draws pob cwintel ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ymestyn y

³⁸ **Ymateb Llywodraeth Cymru i Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig**, Medi 2020

³⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2021, paragraff 238

dadansoddiad a bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud effaith gwariant cyhoeddus “mor flaengar â phosibl”.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn dadl y Senedd ar y gyllideb derfynol, yn amlinellu ei safbwynt ynghylch p’un a yw’n credu, mewn egwyddor, y dylai gwariant cyhoeddus fod yn gwbl flaengar ar draws pob cwintel o incwm cartref cyfartal.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus i nodi’r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwariant yn gwbl flaengar ar draws pob cwintel o incwm cartref cyfartal.